# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

**2023 dsc 3**

## RHAN 5

DARPARIAETH ATODOL YNGHYLCH ADEILADAU O DDIDDORDEB ARBENNIG AC ARDALOEDD CADWRAETH

## PENNOD 2

ACHOSION GERBRON GWEINIDOGION CYMRU

*Darpariaethau gweithdrefnol sy'n gymwys i apelau i Weinidogion Cymru*

PROSPECTIVE

### 173 Penderfynu apêl gan berson a benodir

(1) Mae apêl y mae'r adran hon yn gymwys iddi i'w phenderfynu gan berson a benodir gan Weinidogion Cymru (yn hytrach na chan Weinidogion Cymru).

(2) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) i apêl o dan adran 100 (apêl yn erbyn penderfyniad neu fethiant i wneud penderfyniad ar gais am gydsyniad adeilad rhestredig neu gydsyniad ardal gadwraeth, i amrywio neu ddileu amodau neu i gymeradwyo manylion);

(b) i apêl o dan adran 127 (apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi).

(3) Ond nid yw'r adran hon yn gymwys i apêl—

(a) os yw'n apêl o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, neu

***Statws** Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 173. (See end of Document for details)*

(b) os yw Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo bod yr apêl i'w phenderfynu ganddynt hwy yn hytrach na chan berson a benodir.

(4) Nid yw'r adran hon yn effeithio ar unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon neu mewn rheoliadau a wneir odani sy'n darparu y caniateir i apêl gael ei gwneud i Weinidogion Cymru, neu fod rhaid i hysbysiad o apêl gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru.

(5) Pan fo person a benodir yn penderfynu apêl, mae penderfyniad y person a benodir i'w drin fel pe bai'n benderfyniad gan Weinidogion Cymru.

(6) Mae Atodlen 12 yn gwneud darpariaeth bellach mewn cysylltiad â phenodiadau o dan is-adran (1) a chyfarwyddydau o dan is-adran (3)(b).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 173 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 173.